

WFAC 21/02/03

I'w drafod

Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru – Adroddiad y Cyfarwyddwr

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig gan Gyfarwyddwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru yn adrodd ar faterion perthnasol a allai fod o ddiddordeb i aelodau Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor).
2. Bydd Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.
3. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:
 - **nodi'r** diweddariad;
 - **gwahodd** y Cyfarwyddwr i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cysylltwch â: Lucy Boruk

Lucy.Boruk@food.gov.uk

WFAC 21/02/03

I'w drafod

Adroddiad y Cyfarwyddwr – Chwefror 2021

1. Cyllid ar gyfer yr ASB yng Nghymru

1.1 Roedd yr ASB yng Nghymru yn llwyddiannus yn ei chais i Lywodraeth Cymru am adnoddau ychwanegol o 21/22 ymlaen. Gwnaed y cais i gefnogi'r gwaith sydd ynghlwm ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), gwaith a arferai gael ei wneud gan y Comisiwn neu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA), a fydd bellach yn dod o fewn portffolio'r ASB. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno i £1.5 miliwn ychwanegol i'r ASB yng Nghymru o 2021-22 fel cyllid rheolaidd. Mae'r gyllideb flynyddol bellach yn cynyddu i £5.1 miliwn gan gynnwys £0.490 mil sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yng Nghymru. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, bydd yr ASB yng Nghymru nawr yn cychwyn ymgyrch recriwtio i sicrhau cefnogaeth ychwanegol i gyflawni'r swyddogaethau newydd hyn.

2. Cynllunio Busnes

2.1 Nawr bod sefyllfa ariannol yr ASB yng Nghymru o 21/22 wedi'i chadarnhau, rydym ni'n gallu llunio Cynllun Busnes terfynol yr ASB yng Nghymru ar gyfer 21/22. Bydd y cynllun hwn yn adlewyrchu ein swyddogaethau statudol, ein gwaith arferol a'r meysydd gwaith newydd sy'n trosglwyddo i'r ASB o ganlyniad i'n hymadawiad â'r UE. Ymhlith y meysydd sy'n debygol o gael eu hamlygu yn y cynllun mae:

- Adfer yn dilyn COVID-19;
- cyflwyno'r holl deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid domestig a'r Deyrnas Unedig (DU), lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn gwella diogelwch bwyd a safonau bwyd;
- sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer Offerynnau Statudol y DU;
- cyfrannu at ddatblygiad y Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnes;
- gweithio gyda'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ar ddatblygu model 3 gwlad sy'n mynd i'r afael â throseddau bwyd ac sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a rhanddeiliaid Cymru;
- cynnal rheolaethau swyddogol ar samplu a gwyliadwriaeth;
- ymdrin yn effeithiol â digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid ac argyfyngau amgylcheddol sy'n effeithio ar Gymru;
- gweithrediad effeithiol y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) statudol gan awdurdodau lleol yng Nghymru;
- datblygu'r cynigion i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau ddarparu sgoriau hylendid bwyd ar-lein;
- cynnal ymarfer cwmpasu ar gynnwys gwarchodwyr plant yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd;
- pob agwedd ar ofynion corfforaethol a deddfwriaethol mewnol ac allanol mewn perthynas â chyllid, risg busnes a monitro perfformiad;
- gweithredu busnes Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a'i fewnbwn i drafodaethau'r Bwrdd yn effeithiol;

- gweithredu strategaeth atchwanegiadau (*supplements*) bwyd a chydlynu'r maes polisi hwn ar gyfer yr ASB;
- gweithredu strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i thargedu yng Nghymru;
- cynnal ymgyrchoedd diogelwch a hylendid bwyd yng Nghymru;
- sicrhau bod yr holl ffrydiau gwaith perthnasol yn y rhaglen gorsensitifrwydd i fwyd yn cael eu gweithredu yng Nghymru;
- sicrhau bod deddfwriaeth ar waith i gefnogi cymeradwyo cynhyrchion wedi'u rheoleiddio yng Nghymru;

3. Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru

3.1 Dechreuwyd ymgynghori ar God Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru ar 18 Rhagfyr 2020. Mae'r ASB yng Nghymru wedi darparu ystod o gefnogaeth i alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Mae hyn wedi cynnwys trefnu gweminarau ar 2 Chwefror a 9 Chwefror i ategu'r broses ymgynghori. Mae cyllid wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol recriwtio cydlynnydd dros dro i'w cefnogi yn y maes hwn ac i gynorthwyo wrth fewnbynnu i gynlluniau ar gyfer adfer. Bydd hyn hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i ryddhau staff proffesiynol yn ôl i gynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19.

4. Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW)

4.1 Mae'r grŵp Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys yn cwrdd ar 1 Chwefror 2021. Mae eitemau ar yr agenda yn cynnwys diweddariad gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar reolaethau bwyd swyddogol a gwaith cysylltiedig â COVID. Byddaf yn rhoi diweddariad llafar ar y cyfarfod hwn.

5. Penodi Cadeirydd Newydd yr ASB

5.1 Mae Heather Hancock yn camu i lawr fel Cadeirydd yr ASB ddiwedd mis Ionawr. Mae'r ymarfer penodi cyhoeddus i recriwtio'r Cadeirydd newydd wedi cychwyn, ac mae'r ASB yng Nghymru yn cynorthwyo i hysbysebu'r swydd yng Nghymru. Mae Dr Ruth Hussey wedi'i phenodi yn Gadeirydd dros dro ar yr ASB o 1 Chwefror 2021 am hyd at 3 mis, er mwyn rhoi amser i recriwtio'r Cadeirydd newydd.

6. Ymgysylltu'n allanol

6.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, rydw i wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu canlynol a allai fod o ddiddordeb i aelodau:

- Presennol yng Ngrŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd (HPAG) Prif Swyddog Meddygol Cymru, bob pythefnos. Mae'r HPAG wedi canolbwyntio ar ymateb COVID-19 Cymru ac rydw i'n cyfrannu trwy sicrhau bod materion diogelwch bwyd yn cael eu cynrychioli fel y bo'n briodol.
- Cyfarfod gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Fe wnes i gyfarfod â'r DWP i drafod sut i gydlynu ein gwaith i wella amrywiaeth yn yr ASB yng Nghymru, yn ogystal â deall unrhyw fecanwaith pellach ar gyfer cynyddu ymgysylltiad â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

- Cefnogi Aelod Bwrdd Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod gyda'r Gweinidog, Eluned Morgan AS.
- Sesiwn friffio cyn y cyfarfod llawn gyda'r Gweinidog, Eluned Morgan AS, ar Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE)
- Gweithgor pedair gwlad yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, bob pythefnos. Mae'r grŵp hwn yn rhoi diweddariadau ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol ar draws y pedair gwlad.
- Grŵp arweinwyr Llywodraeth y DU yng Nghymru. Bwriad y grŵp hwn yw cryfhau rhwydwaith arweinwyr y Llywodraeth yng Nghymru a rhannu arfer gorau.
- Presennol yn y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol gyda Phrif Weithredwr yr ASB, Emily Miles, ar y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

7. Rhannu gwybodaeth

7.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i rhannu â'r aelodau:

- Penodi Ruth Hussey yn gadeirydd dros dro <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/news/penodi-dr-ruth-hussey-yn-gadeirydd-dros-dro-ar-fwrdd-yr-asiantaeth-safonau-bwyd>
- Cylchlythyr Etholiad Senedd mis Ionawr
- Canfyddiadau diweddaraf yr Arolwg Tracio Defnyddwyr ar COVID-19 fel y'u [cyhoeddwyd](#).
- Papur Gwyn ac ymgynghoriad Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddir-papur-gwyn-amaethyddiaeth-cymru?_ga=2.222215069.40548005.1614789442-1751007255.1610977263

Nathan Barnhouse
Cyfarwyddwr, ASB yng Nghymru
27 Ionawr 2021